Cyllid & Thollau EF

Ffeithiau Treth

Canllaw CThEF: Cwestiynau ac Atebion

Help er mwyn ateb cwestiynau gan fyfyrwyr mewn ffordd hyderus

Beth yw treth, pam fod angen i ni ei thalu?

Treth yw'r arian sy'n cael ei dalu i'r llywodraeth er mwyn talu am wasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd, addysg, gwasanaethau amddiffyn, atal trosedd, budd-daliadau lles, a phensiynau.

Beth yw'r prif fathau o dreth yn y DU?

- Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol: arian sy'n cael ei ddidynnu o incwm, arian sy'n gysylltiedig â phensiynau a budd-daliadau'r wladwriaeth.
- TAW (Treth ar Werth): treth sy'n cael ei chodi ar nwyddau a gwasanaethau.
- Treth Gorfforaeth: arian sy'n cael ei dalu gan fusnesau yn seiliedig ar eu henillion

Beth yw Treth Incwm, sut mae'n gweithio?

Mae Treth Incwm yn cael ei chodi ar incwm o gyflogaeth neu incwm o hunangyflogaeth.

- Mae cyflogwyr yn didynnu Treth Incwm o gyflogau gan ddefnyddio **TWE** (Talu Wrth Ennill).
- Mae unigolion sy'n hunangyflogedig yn cyflwyno **Ffurflen Dreth Hunanasesiad** er mwyn rhoi gwybod am eu hincwm a thalu treth yn uniongyrchol.

Beth yw Yswiriant Gwladol, pam fod angen i mi ei dalu?

Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol er mwyn bod yn gymwys i gael budd-daliadau penodol a Phensiwn y Wladwriaeth.
Mae cyflogai a chyflogwyr yn gwneud y cyfraniadau hyn. Nid yw plant o dan 16 oed yn talu Yswiriant Gwladol.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng incwm gros ac incwm net?

- **Incwm gros** yw swm eich incwm cyn unrhyw ddidyniadau (er enghraifft, Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol).
- **Incwm net** yw swm eich incwm ar ôl didyniadau.

Beth yw Treth Wrth Ennill (TWE), sut mae'n gweithio pan fydd swydd gen i?

- Mae'ch cyflogwr yn defnyddio TWE, sef system CThEF, i gasglu Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Bydd y cod treth ar eich slip cyflog yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr faint o dreth i'w didynnu.

Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn talu'r swm cywir o dreth?

Mae CThEF yma i gasglu'r dreth sy'n talu am wasanaethau cyhoeddus y DU. Byddwn yn eich helpu i fodloni'ch cyfrifoldebau treth ac yn sicrhau eich bod yn cael unrhyw fudd-daliadau, credydau treth, ad-daliadau neu gymorth arall y gallwch ei hawlio. Fodd bynnag, byddwn yn cymryd camau cadarn yn erbyn y lleiafrif bach sy'n plygu neu'n torri'r gyfraith.

A oes rhaid i mi dalu treth ar fy nghynilion?

- Mae'n bosibl y bydd y **llog** a enillwyd ar eich cynilion yn cael ei drethu. Llog yw'r arian y mae'r banc yn ei dalu i chi am gadw'ch arian yn eich cyfrif. Mae'r llog hwn yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar ganran o'r swm yr ydych yn ei dalu i'ch cyfrif.
- Mae'r **Lwfans Cynilion Personol (PSA)** yn eich caniatáu i ennill rhywfaint o log ar eich cynilion heb dalu treth. Mae swm y lwfans rhydd o dreth rydych yn ei gael yn dibynnu ar gyfradd y dreth rydych yn ei thalu.

Pryd bydd yn rhaid i mi ddechrau talu treth?

Nid oes terfyn o ran oedran. Bydd yn rhaid i chi dalu treth os ydych yn cael incwm sydd dros y Lwfans Personol.

A oes rhaid i mi dalu treth os ydw i'n gweithio'n rhan amser tra fy mod yn astudio?

Bydd myfyrwyr sy'n gweithio tra'u bod yn astudio yn talu Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol os bydd eu hincwm yn mynd dros y terfyn ar gyfer y trethi hyn.

Beth yw Hunanasesiad, pryd y bydd angen i mi lenwi Ffurflen Dreth?

Hunanasesiad yw'r ffordd y mae unigolion sy'n hunangyflogedig yn talu treth ar eu hincwm. Rydych yn datgan eich incwm drwy lenwi Ffurflen Dreth ac yna'n talu'r dreth sydd arnoch.Y dyddiad cau ar gyfer llenwi Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf yw 31 Ionawr. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gyflwyno Ffurflen Dreth Hunanasesiad at ddibenion treth eraill, er enghraifft os ydych yn berson neu'n fusnes sy'n cael incwm arall. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/gwirio-angen-ffurflen-dreth**

A oes rhaid i mi dalu treth os ydw i'n gwerthu eitemau ail-law ar-lein?

Os ydych yn gwerthu ambell i eitem ddiangen, mae'n annhebygol y bydd yn rhaid i chi dalu treth. Os ydych yn masnachu neu'n gwneud enillion cyfalaf ar nwyddau neu wasanaethau rydych yn eu gwerthu, wedyn bydd yn rhaid i chi dalu treth.

Os ydych yn masnachu a bod eich incwm o fasnachu yn mynd dros swm penodol, mae'n rhaid i chi gofrestru fel unigolyn hunangyflogedig a chyflwyno Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Os ydw i'n cael fy nhalu am warchod plant neu roi gwersi, a oes angen i mi roi gwybod i CThEF?

Gallwch ennill incwm o waith achlysurol, fel gwarchod plant, hyd at drothwy a benodir gan y lwfans masnachu.

Bydd yn rhaid i chi ddatgan unrhyw incwm dros y trothwy hwnnw a chofrestru fel unigolyn hunangyflogedig.

A fyddaf yn talu treth os ydw i'n dechrau ennill arian o greu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ffrydio neu YouTube?

Os bydd eich incwm yn mynd dros y trothwy a benodir gan y lwfans masnachu. Bydd yn rhaid i chi gofrestru fel unigolyn hunangyflogedig a chyflwyno Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Faint gallaf ennill o swydd ran-amser cyn gorfod talu treth?

Bob blwyddyn dreth, mae'r hawl gennych i ennill swm penodol o arian heb dalu treth arno. Gelwir hyn yn Lwfans Personol, a bydd CThEF yn rhoi gwybod i chi beth yw hyn ac yn rhoi cod treth i chi. Bydd eich cyflogwr yn defnyddio'r cod hwn i gyfrifo'r dreth y gallai fod angen i chi ei thalu ar eich incwm.

Sut alla i gael gwybodaeth am fy nghod treth a'm rhif Yswiriant Gwladol?

Gallwch ddysgu beth mae'ch cod treth yn ei olygu a sut mae'n effeithio ar eich cyflog drwy lawrlwytho **ap** CThEF. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap i ddiweddaru gwybodaeth, fel eich cyfeiriad, a bwrw golwg dros eich rhif Yswiriant Gwladol a'i gadw.

A alla i weithio i CThEF neu'r Gwasanaeth Sifil, sut ydw i'n dechrau arni?

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio i CThEF yn dechrau eu gyrfa fel Ymgynghorwyr Gwasanaethau i Gwsmeriaid – dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i'n cwsmeriaid. Dyma rôl sy'n cyfuno sgiliau cyfathrebu gwych â gwir awydd i helpu eraill. Dyma gyfle i helpu pobl i lywio gwasanaethau hanfodol, a hynny dros y ffôn, drwy e-bost a thrwy sgwrsio dros y we. Dyma rôl sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rydym hefyd yn cynnig ystod eang o brentisiaethau. I gael rhagor o wybodaeth am brentisiaethau a gyrfaoedd yn y Gwasanaeth Sifil, ewch i **www.civil-service-careers.gov.uk**

Mae'r Cwestiynau Cyffredin yma yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i ategu rhaglen Ffeithiau Treth CThEF. Nid yw'n rhoi cyngor penodol ynghylch treth.